Cenn@d

MAI 21 2025 | YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* | RHIF 221

# Nansi a Dyfed yn dathlu'r cant

## Cyfarch a llongyfarch Nansi Evans, Cwmfelin Mynach, yn 100 oed

Ddiwedd Ebrill dathlodd Nansi Evans, Cwmfelin Mynach, ei phen-blwydd yn 100 oed. Dymunwn ei llongyfarch, gan ddymuno'n dda iddi i'r dyfodol. Bu cyfle i ddathlu gyda the parti, a braf yw cael rhannu'r llun hwn gyda darllenwyr *Cenn@d*. Mae Nancy yn aelod yn Ramoth, Eglwys y Bedyddwyr, Cwmfelin Mynach.

Cyhoeddwyd casgliad o gerddi gan Nansi Evans, ac fe'i cyflwynwyd iddi ar achlysur ei phen-blwydd yn 100 oed. Mae wedi bod yn barddoni ac yn cyfansoddi ers yn ifanc gan ennill llawer mewn eisteddfodau lleol. I Rosemond Halls y mae'r diolch am y syniad, a diolch hefyd i Geraint Roberts am olygu'r gyfrol. Diolch i Aled Gwyn am yr englynion i'w chyfarch.




### I Nansi ar gyrraedd y cant

Diau bu neb mwy diwyd – yn ei bro,
Ni bu'r un mor hyfryd;
Llawn gwaith, llawn afiaith hefyd,
Yn wyrth byw a'n werth y byd.

Diysgog mewn cymdogaeth; – i'w thylwyth
A'i theulu'n gynhaliaeth;
Un ddawnus mewn barddoniaeth
A'i llais mwyn yn lles a maeth.

Mae'n haeddu dathlu ei dydd, – a'i nod oedd
Hyd ei hoes yn ufudd
Fu aros beunos beunydd
Yn gyson ffyddlon i'w ffydd.

Enaid Cwmfelin Mynach – yw Nansi
Heb nonsens na grwgnach;
Ni fuodd dy ryfeddach
A da yw dy fywyd iach.

*Aled Gwyn*




### Dyma soned o'i gwaith a gyfansoddwyd ganddi ar droad ei phenblwydd yn 100

Dydd Gŵyl Dewi
Mae Mawrth y cyntaf eto wrth y drws
A'r Cymry'n ymwybodol iawn o'u tras,
Daw'r merched allan yn eu gwisgoedd tlws,
A chenir yr hen anthem gyda blas;
Fe gofir am ein Nawddsant drwy'r holl wlad,
A gwelir Cymry alltud yn dod nôl
I gymdeithasu gyda'r werin fad
A roddodd etifeddiaeth yn eu côl.
Mae'r het fawr ddu yn nodweddiadol hardd,
A'r cennin gwyrdd ar fynwes pob rhyw un,
A'r cynganeddion ar wefusau'r bardd,
Mewn cinio gwir Gymreig ei naws a'i lun,
Nid digon Dydd Gŵyl Dewi yn ein gwlad
Ymladdwn am ein rhyddid, er sarhad.

*(parhad ar y dudalen nesaf)*

Rhybudd i gapeli wirio yswiriant wedi siom gorfod talu am ddifrod storm
**Tudalen 3**

Bedyddiadau'r Pasg
**Tudalen 7**

Cofio Hugh Jones, Maesglasau (1749–1825) – cyfieithydd ac emynydd
**Tudalen 8**

## Nansi a Dyfed yn dathlu eu cant oed

*(parhad o dudalen 1)*

### Cyfarch a llongyfarch Dyfed Evans, Pencaenewydd, yn 100 oed




Llun o'r teulu a dynnwyd gan Gareth Owen yn ystod y dathlu.
Rhes ôl – Gwen, Ifan, Delyth, Owi (o flaen Delyth), Aled, Emyr, Ffion, Gwilym, Llio, Marian, Tudur, Eluned
Rhes flaen – Robin, Dyfed, Mari, Cynan, Rhys

Ym Mhencaenewydd, bnawn dydd Mawrth, 13 Mai, fe gynhaliwyd parti pen-blwydd Dyfed Evans yn gant oed. Trefnwyd y cyfan yn y capel gan drigolion hawddgar a gweithgar y pentref. Cafwyd gwledd o fwyd gwerth ei weld a'i fwynhau a chyfraniadau ar lafar ac ar gân i ddathlu'r achlysur cwbl arbennig yma.

Ymysg y cyfarchion a anfonwyd ato roedd sawl un yn cyfeirio at ei gyfraniad neilltuol i'r *Ffynnon*, y papur bro lleol, o'r cychwyn un, 'nôl yn 1976. Heblaw yn ddiweddar, go brin bod yna unrhyw un o'r rhifynnau a gyhoeddwyd heb erthygl, newyddion neu gerdd o waith Dyfed. Ond mae yna un ffaith ddiddorol a gwahanol y dylid ei chofio a'i nodi, sef mai gyda'i bensil yr ysgrifennai o bob cyfraniad. Dyna'r newyddiadurwr ar waith wrth gwrs.

Cydied yn hynna wnaeth Twm Prys wrth fynd ati i lunio ei englyn cyfarch i Dyfed. A chafwyd cyfle i'w ddarllen ar goedd yn ystod y pnawn a llongyfarch yr awdur am ddal ar yr un nodwedd yma gan wau cymaint o gyfeiriadaeth addas i gyfoethogi'r dweud. Dyma'r englyn:

Llongyfarchiadau mawr i chi Dyfed.

*Cyfarchion i Dyfed Evans yn Gant Oed*

*Ni wedda'r gair heneiddio – i Dyfed*
*ŵr difyr, ond eto*
*cyfoeth canrif sy'n llifo*
*o'i law drwy ei bensil o.*

*Twm Prys*

A diolch i Dyfed am rannu ei atgofion gyda ni:

O'r can mlynedd a dreuliais ar y ddaear hon – y mae gennyf gof eithaf clir, diolch byth, am ddigwyddiadau mewn 94 o'r blynyddoedd hynny.

Cofiaf fynd i'r ysgol am y tro cyntaf yn bump oed a chofiaf ymadael yn bymtheg i ddechrau gweithio mewn siop am goron (pump swllt) yr wythnos. Dysgais yn y fan honno pa fotwm i bwyso arno bob bore i gychwyn y peiriant malu coffi i greu arogl dymunol o fewn y lle, a dysgu sut i hogi'r gyllell i dorri tafell o gig mochyn i roi blas ar fy nghinio.

Wel, deuthum yn gyfarwydd â chryn nifer o amrywiol ddyletswyddau yng nghwrs y blynyddoedd maith. Gwn, er enghraifft, mor flinedig yw ceisio carthu cwt lloi pan fo trwch trwm o dail ar y llawr, a gwaith mor drwm yw clirio tywod oddi ar gytiau ymdrochi yn y gwanwyn. Y wers gyntaf yw sylweddoli fod y shefl yn dal llai na'i llond.

Yn ddeunaw oed, ar ôl naw mis o hyfforddiant i fyny yn yr Alban, deuthum yn abl i yrru a derbyn negeseuon yn eithaf cyflym mewn Morse Code a threulio tair blynedd yn ymhél â'r gwaith hwnnw yn y Llynges yn ystod y rhyfel. Wedi dod adref cefais fynediad i Goleg Harlech, a elwid yn 'goleg yr ail gynnig', a chael swydd yn y man yn ohebydd i'r Cymro. Bûm wrthi'n gohebu am bedair blynedd ar bymtheg, yn dod i adnabod llawer o wreng a bonedd, chwedl Wil Sam, yn dysgu peth mwdredd o hanes, a dod yn gyfarwydd â rhesi o lefydd anhygyrch ledled Cymru. Ar y dechrau rhoddwn dair 'n' yng nghanol ambell air a gadael i'r golygydd neu is-olygydd chwalu un, ynteu ddwy ohonynt, yn ôl y gofyn!

O'r Cymro euthum i'r Coleg Normal ym Mangor am ddwy flynedd ac yn athro mewn dwy ysgol gynradd y bûm wedyn nes ymddeol yn 65 oed. Yn ôl ambell un – i fyw ar y wlad am yr holl flynyddoedd!

Un peth a brofais yn bendant iawn yw nad wyf yn fardd. Unwaith erioed yr ymddangosodd darn o'm 'barddoniaeth' – sef englyn – mewn llyfr. Englyn i 'Cusan' oedd hwnnw ac fe'i dewiswyd gan Huw Ceiriog yn ei gyfrol *Y Flodeugerdd o Englynion Ysgafn*. A hyd yn oed wedyn ni fyddech fawr callach mai myfi a'i lluniodd oherwydd fod fy enw yn anghywir yn y fan honno!

Cofiwch, ni fyddwn byth yn cystadlu mewn eisteddfodau, ac unwaith y flwyddyn yn unig yr awn ati i geisio 'creu' a hynny i gefnogi Cylchwyl y Capeli lle na chynigid gwobr ariannol ond i blant. Rhyw dipyn i fyny ac i lawr fu hi drwy'r blynyddoedd.

Ac i gloi y pwt hwn y gofynnwyd amdano mentraf ddyfynnu yr hyn a ddigwyddodd y llynedd. Yr ail safle a gefais am fy englyn i 'Unrhyw le'.

A dyma fo:

Am orig dawel felys – neu oriau
I'w gwario'n gysurus,
Tyrd i'r fro, tyred ar frys,
Dere i hedd Llwyndyrys.

# Rhybudd i gapeli wirio yswiriant wedi siom gorfod talu am ddifrod storm



Llun: Lynwen Hughes

Gwirfoddolwyr yn tacluso o flaen capel Soar-y-mynydd wedi'r gaeaf

**Wrth i gapel Soar-y-mynydd - un o gapeli mwyaf eiconig Cymru - agor ei ddrws ar gyfer oedfaon eleni, mae'r swyddogion yn rhybuddio capeli eraill i wirio eu polisi yswiriant.**

Yn ystod Storm Darragh fe gafodd to'r capel, sydd wedi'i leoli yn y bryniau rhwng Tregaron a Llyn Brianne, ddifrod sylweddol ac fe gwympodd nifer o'r coed gerllaw.

Wedi iddi anfon amcan bris o'r gost o'i drwsio i gwmni yswiriant Congregational – cwmni sydd wedi bod yn darparu yswiriant i eglwysi am dros 130 mlynedd – fe gafodd Margaret Evans siom o wybod na fyddai'r cwmni yn talu am y gwaith.

"Ychydig o aelodau ydyn ni i gyd a does yna ddim lot o arian yn y coffrau ond ni wedi cael gaeaf anoddach nag arfer," meddai Mrs Evans wrth siarad â Cymru Fyw.

"Roedd yna £2,800 o ddifrod i'r to wedi Storm Darragh ac yn ychwanegol at hynny mae drws y toiled wedi'i ddwyn.

"Wedi i fi ffonio'r cwmni yswiriant fe wedon nhw wrtha i am anfon yr amcan bris o'i drwsio ac roedd rhaid bwrw 'mlaen â'r gwaith er mwyn diogelu'r capel bach ond yna fe gawson ni wybod nad oedd yr yswiriant yn *covero'r* difrod am nad oes oedfaon yn y capel o ganol Hydref tan ganol Mai.

"Roedd hynny'n siom fawr a ninnau yn talu am yswiriant yn flynyddol ac fe fydden i'n annog capeli eraill i wirio eu polisi, yn enwedig wrth i lai o oedfaon gael eu cynnal yng nghapeli cefn gwlad."

**Dim yswiriant os nad oes defnydd cyson**

Ategu yr alwad honno mae Nan Wyn Powell-Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru.

"Y capeli yn lleol sy'n gyfrifol am eu polisi yswiriant ac yn sicr mae angen i bawb wirio eu polisi a dod i drefniant gyda'r cwmni yswiriant os yw defnydd o'r adeilad wedi newid.

"Ers Covid mae llawer o gapeli yn cynnal llai o gyfarfodydd ac mae rhai capeli wedi cau ond ddim eto wedi'u datgorffori," meddai.

Doedd y cwmni yswiriant ddim am ymateb ond nododd Ms Powell-Davies fod "cymal 13 yn nodi'n glir nad yw nifer o bethau yn gynwysedig yn y polisi os nad yw'r adeilad yn cael ei ddefnyddio yn amlach nag unwaith y mis – heblaw bod y capel a'r cwmni yswiriant wedi dod i gytundeb".

(Ymddangosodd gyntaf ar BBC Cymru Fyw gan Sara Down-Roberts)

## Dyma'r oedfaon sydd ar ôl i'w cynnal yn Soar eleni

**Oedfaon am 2 o'r gloch**

| | |
|---|---|
| Mai 25ain | Parch. Carys Ann, Penrhiw-Pâl |
| Mehefin 1af | Sian Elin Thomas, Crymych |
| Mehefin 8fed | Parch. Gwyn Elfyn Jones, Pontyberem |
| Mehefin 15fed | Beti Griffiths, Llanilar |
| Mehefin 22ain | Parch. Richard Brunt, Llundain |
| Mehefin 29ain | Parch. Andrew Lenny, Peniel |
| Gorffennaf 6ed | Parch. Aled Davies, Chwilog |
| Gorffennaf 13eg | Eifion Thomas, Drenewydd |
| Gorffennaf 20fed | Parch. Athro D. Densil Morgan, Llanbedr Pont Steffan |
| Gorffennaf 27ain | Parch. Eifion Roberts, Aberystwyth |
| Awst 3ydd | Parch. Ian Sims, Llandeilo Fawr |
| Awst 10fed | Delyth Morgans Phillips, Talsarn |
| Awst 17eg | Tudur Dylan Jones, Caerfyrddin |
| Awst 24ain | Parch. Wyn Thomas, Dre-fach |
| Awst 31ain | Parch. Gwilym Wyn Roberts, Caerdydd |
| Medi 7fed | Parch. John Roberts, Aberystwyth |
| Medi 14eg | Parch. Aled Lewis, Pontrhydfendigaid |
| Medi 21ain | Bronwen Morgan, Llangeitho |
| Medi 28ain | Parch. Ken Thomas, Maenclochog |
| Hydref 5ed | **Cwrdd Diolchgarwch** Parch. Richard Lewis, Bow Street |

# Datblygiadau allweddol mewn Polisi Cyhoeddus a Gwleidyddiaeth yn effeithio ar Eglwysi Cristnogol yng Nghymru (Rhagfyr 2024–Mai 2025)

Mae'r adroddiad hwn yn nodi gweithgarwch gwleidyddol a pholisi cyhoeddus arwyddocaol sydd wedi effeithio ar eglwysi Cristnogol yng Nghymru o Ragfyr 2024 hyd at Fai 2025. Mae'r datblygiadau'n cynnwys addysg, polisi amgylcheddol, rhyddid crefyddol, ac ymgysylltu cymunedol. Mae'r cyfnod hwn yn nodi blwyddyn tan etholiadau nesaf y Senedd ar 6 Mai 2026. Mae'r etholiad, sy'n agos o ran amser gwleidyddol, eisoes yn dylanwadu ar y ddeddfwriaeth a'r cynigion polisi gan y llywodraeth, pleidiau'r wrthblaid a chyrff eraill.

1. Diwygio Addysg Grefyddol a Chysylltiadau'r Eglwys â'r Wladwriaeth

• Gwrthwynebiad Ysgolion Catholig i newidiadau'r Cwricwlwm: Mae dros 80 o benaethiaid ysgolion Catholig yng Nghymru wedi gwrthwynebu gyda'i gilydd ad-drefnu'r Cwricwlwm Addysg Grefyddol gan Lywodraeth Cymru. Ystyrir bod y cwricwlwm newydd 'Crefydd, Gwerthoedd ac Moeseg' yn tanseilio ethos Catholig drwy fynnu cwricwla deuol, yn rhoi straen ar adnoddau, ac o bosibl yn tanseilio hawliau rhieni i addysg seiliedig ar ffydd i'w plant.

• Addysgu'r Dyniaethau, gan gynnwys Athroniaeth a Chrefydd: Mae Cytûn wedi ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Cabinet dros Addysg, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg mewn perthynas â'i adolygiad byr ar yr heriau sy'n wynebu prifysgolion Cymru, gan gynnwys y newidiadau arfaethedig ym Mhrifysgol Caerdydd. Bu hefyd mewn cysylltiad â Medr, corff ariannu a rheoleiddio addysg drydyddol a grëwyd yn ddiweddar. Cymerodd ran a chefnogi'r drafodaeth ar y pwnc yn y Grŵp Trawsbleidiol ar Ffydd. Bydd y Grŵp yn ychwanegu ei gefnogaeth er sicrhau parhad cynnig cwricwlwm eang ar bob cam o addysg.

2. Menter Amgylcheddol ac Eiriolaeth Hinsawdd

• Cefnogaeth i Fil Hinsawdd a Natur: Mae Cytûn wedi monitro ac wedi hyrwyddo rôl eglwysi wrth i'r bil fynd trwy'r broses ddeddfwriaethol, sy'n ceisio mynd i'r afael â newid hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, gan gyd-fynd â'r argyfwng hinsawdd a'r ymrwymiad sero net.

• Ailddefnyddio Adeiladau Eglwysig ar gyfer Tai: Mae adroddiad gan Housing Justice Cymru a Sefydliad Bevan yn tynnu sylw at y potensial i droi adeiladau eglwysig segur yn dai fforddiadwy. Mae'r fenter yn galw am gydweithio strategol rhwng Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chyrff ffydd i fynd i'r afael â phrinder tai.

3. Ymgysylltu Cymunedol a Chymorth Cymdeithasol

• Cyllid ar gyfer Mannau Croeso Cynnes: Mae Llywodraeth Cymru wedi dyrannu £1.5 miliwn i gefnogi 'Mannau Croeso Cynnes', gyda llawer ohonynt wedi'u lletya mewn adeiladau eglwysig. Mae'r mannau hyn yn darparu amgylcheddau cynnes, gweithgareddau cymdeithasol, a mynediad at wasanaethau i aelodau'r gymuned yn ystod y misoedd oer.

• Cymryd rhan yn Ymchwiliad COVID-19: Mae Eglwysi Ynghyd yng Nghymru (Cytûn) wedi cymryd rhan mewn ymchwiliad ledled y Deyrnas Unedig i archwilio effaith COVID-19 ar gymunedau ffydd ac wedi cyflwyno tystiolaeth i gynrychioli profiadau eglwysi Cymru yn ystod y pandemig.

4. Datblygiadau rheoleiddio sy'n effeithio ar weithgareddau'r Eglwys

• Cofrestru Gweithgareddau Gofal Plant: Mae Llywodraeth Cymru yn adolygu rheoliadau a allai olygu bod angen i eglwysi gofrestru gweithgareddau plant, megis ysgolion Sul a chlybiau gwyliau, o dan ddarpariaethau gofal plant. Mae Cytûn yn cymryd rhan weithredol mewn ymgynghoriadau i sicrhau y caiff gweithgareddau dan arweiniad eglwysig eu hystyried yn briodol mewn unrhyw newidiadau rheoleiddiol. Mae Cytûn yn parhau i gymryd rhan yn y grŵp gwaith a sefydlwyd cyn i'r Gweinidog wneud penderfyniad ar y ffordd ymlaen.

• Bil Llety Ymwelwyr (Cofrestr ac Ardoll) Etc. (Cymru): Bu Cytûn yn ymwneud yn helaeth ag ymgynghori cyn deddfu, yn enwedig i ofyn am eglurhad pellach ynghylch llety ar gyfer myfyrdod. Yn ystod cyflwyno'r Bil yn y Cyfarfod Llawn, cadarnhaodd y Gweinidog Cyllid, Mark Drakeford AS, nad yw darpariaethau'r bil yn berthnasol i neuaddau eglwys a thwristiaeth ffydd heb elw masnachol.

5. Deddfwriaeth Marwolaeth Cynorthwyedig a Gwrthwynebiad yr Eglwysi

• Brys yn y Broses ar Fil Marwolaeth Cynorthwyedig: Yn ystod cyfnod yr adroddiad, mae'r cynnydd cyflym gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes) wedi denu beirniadaeth gan arweinwyr crefyddol. Maent yn dadlau bod y diffyg dadl seneddol fanwl yn tanseilio difrifoldeb y materion moesegol dan sylw ac yn gallu tanseilio'r ddyletswydd gofal ym maes meddygaeth. Mae rhywfaint o ansicrwydd yn parhau o ran cwmpas y pwerau a arferir gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwasanaethau iechyd a'r ddeddf arfaethedig hon.

**Casgliad**

Nodweddwyd y cyfnod ers Rhagfyr 2024 gan ddatblygiadau polisi arwyddocaol sy'n effeithio ar eglwysi Cristnogol yng Nghymru. Mae'r rhain yn cynnwys heriau i addysg grefyddol, mentrau amgylcheddol, anghydfodau cyfreithiol ynghylch rhyddid i gyrff crefyddol a gwirfoddol. Mae Cytûn yn cymryd rhan weithredol mewn prosesau llywodraethol i eiriol dros ei aelodau ac i gynnal eu rôl o fewn cymdeithas Gymreig. Bydd y bwrdd yn ymwybodol bod y Parch. Gethin Rhys wedi ymddeol o'i swydd ddiwedd Ebrill. Mae cais yn cael ei baratoi i'r corff Ymddiriedolwyr i ystyried sut y gall strwythurau Cytûn gynorthwyo â datblygu ymatebion polisi. Mae rhestr lawn o ddeddfwriaeth sylfaenol ac eilaidd gyfredol sy'n cael ei monitro gan Cytûn ar ran enwadau a chyrff aelod ar gael ar gais.

*Iestyn Davies*
*Swyddog Polisi Cytûn*

# Deillio o'r byd seciwlar

Mae gen i gof byw o fwynhau cwmni criw o leianod oedd wrthi'n dwrdio'r Pab yn hallt. Roedd sawl un yn dyheu am gael ei hordeinio'n offeiriad. Pan ofynnais i: "Pam y'ch chi'n aros?," ateb parod un ohonynt oedd, "Mae hi'n eglwys i fi yn ogystal â Fe".

Yn 1996, yn fuan wedi i mi gael fy ordeinio'n offeiriad, gofynnwyd i mi mewn cynhadledd eciwmenaidd i weinyddu'r Cymun. A chefais sioc a syndod o weld dau esgob o Eglwys Rufain yn yr Alban ar eu gliniau o'm blaen yn gofyn am fendith, yn hytrach na derbyn yr elfennau, bara a gwin, y gwaherddid iddynt eu derbyn. Rhyw flwyddyn neu ddwy cyn hynny yr oedd un o offeiriaid yr Eglwys yng Nghymru yn hawlio y byddai gwraig o offeiriad yn 'llygru' yr allor! Bellach, mae gwragedd dros y byd yn y Cymundeb Anglicanaidd yn offeiriaid; mewn gwasanaeth yn Nhyddewi yn ystod yr Wythnos Fawr cefais yr argraff bod nifer y gwŷr a'r gwragedd yn bur gyfartal.

Mae yna lawer o sôn wedi bod am Andrew Tate a'i frawd. Mae eu henwogrwydd hwy'n dibynnu'n llwyr ar ddilorni genethod, merched ifanc a gwragedd yn gyffredinol: *misogyny*. Mae llyfr gan yr hanesydd Diarmaid MacCulloch yn dwyn y teitl pryfoclyd *Lower than the Angels: a History of Sex and Christianity*, yn dangos sut y mae'r atgasedd at wragedd wedi deillio'n bennaf o agweddau'r byd seciwlar o'n cwmpas. Wnaeth neb feddwl am 'wasanaeth' i briodi Cristnogion tan y bumed ganrif, ac yr oedd agweddau rhai o'r 'tadau' cynnar yn atgas. Roedd perthynas rywiol gyda gwraig yn golygu amhuredd y dylid ei osgoi ac nas caniateid ond er mwyn cenhedlu plant. Dyna sail gwrthwynebiad Eglwys Rufain i reoli cenhedlu.

Mae'r efengylau'n dangos bod Iesu'n parchu merched, e.e. Mair Magdalen, Mair a Martha, y wraig â'r diferlif gwaed, a'r wraig wrth Ffynnon Jacob yn Samaria. Yn Efengyl Ioan mae 'na stori am Nicodemus yn methu deall Iesu, ond y mae'r wraig o Samaria'n ei adnabod yn fuan. Cofier i'r disgyblion fynegi syndod bod Iesu'n siarad â hi o gwbl!

Lleian yn eglwys Rufain, y Chwaer Sandra Schneiders, arbenigwraig ar Efengyl Ioan, sy'n dangos bod mwy i'r stori hon na moesoldeb un wraig unigol. Mae Schneiders yn awgrymu mai enghraifft sydd yma o symboliaeth Ioan. Sgwrs drwyadl ddiwinyddol yw hon, a'r pump o 'wŷr' a fu ganddi yw'r pum heresi yr oedd y Samariaid yn euog ohonynt, yn ôl yr Iddewon. Mae'r 'Wraig o Samaria' yn cynrychioli ei chenedl, ac o bosibl yn dangos bod llawer o Samariaid wedi dilyn Iesu ac yn perthyn i'r cylch Ioanaidd. Roedd Samariaid felly wedi deall Iesu yn gynt nag ambell aelod o'r Sanhedrin nad aeth i weld Iesu ond yn y tywyllwch.

Mae atgasedd at wragedd yn gyffredin mewn diwylliannau lawer ac mae sawl crefydd yn glynu wrtho. Ystyriwch Afghanistan. Mae e'n amlwg yn yr eglwys. Ond dyw e ddim yn tarddu o'r Iesu.


**Enid R Morgan**
*o wefan Cristnogaeth21*






# *Llyfr y Pregethwr*

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 13: Diarhebion**

**Llyfr y Pregethwr 7:1–14**

Mae Pregethwr 7:1–14 yn cynnwys nifer o ddiarhebion ac yn diweddu gyda gair o gyngor. Er bod amryw o ddiarhebion wedi ymddangos cyn hyn, dyma'r cyntaf o'r tri chasgliad sylweddol ohonynt a geir yn y llyfr. Ceisiwn yma esbonio'r adnodau mwyaf dyrys.

**Enw da**

Mae'n hawdd deall pam mae cael 'enw da' yn fwy o werth i ddyn nag 'ennaint gwerthfawr' (7:1a). Mae'r Beibl Hebraeg yn llawn o hanesion am unigolion sy'n ymdrechu i wneud enw da iddynt eu hunain. Meddai adeiladwyr Tŵr Babel wrth ei gilydd: 'Dewch, adeiladwn i ni ddinas, a thŵr a'i ben yn y nefoedd, a gwnawn inni enw' (Genesis 11:4). Addawodd Duw i Abraham y byddai'n ei wneud yn genedl fawr ac yn mawrygu ei enw (12:2).

Mae'n bosibl mai fersiwn arall o hen ddihareb yw hanner cyntaf Pregethwr 7:1, ac mai gwaith y Pregethwr ei hun yw'r ail hanner. Ond nid yw'r berthynas rhwng y ddau gymal yn glir. Mae'r cyfochredd yn awgrymu bod cysylltiad ym meddwl yr awdur rhwng enw da a marwolaeth, a rhwng ennaint gwerthfawr a genedigaeth. Roedd yn arferiad ymysg yr Eifftiaid a'r Groegwyr i eneinio plant ar eu genedigaeth fel arwydd o hapusrwydd, iechyd a hir oes. Ond ym marn y Pregethwr, mae 'dydd marw yn well na dydd geni'.

Y peth gorau a all ddigwydd i unrhyw un, wrth nesáu at oed yr addewid ac edrych yn ôl dros ei fywyd, yw cael boddhad o'r hyn a gyflawnodd, a bod yn falch o'r teulu a fagodd. Dim ond wedi iddo farw y caiff pob un yr hyn y mae'n gobeithio amdano, sef enw da, sy'n well na'r 'ennaint gwerthfawr' a gysylltir â genedigaeth.

**Gwell angladd na pharti**

Pam ei bod yn well mynd i angladd nag i barti (7:2)? Am fod angladd yn gyfle i bawb ystyried ei dynged. 'Felly dysg ni i gyfrif ein dyddiau, inni gael calon ddoeth' yw gweddi'r Salmydd (Salm 90:12): deisyfiad i ni sylweddoli nid yn unig pa mor fyr yw ein hoes ond hefyd mai Duw a'i rhoddodd i ni, ac mai Ef sydd wedi pennu ei hyd. Dylai hyn esgor ar ddiolchgarwch am fywyd ac ysgogi'r awydd i wneud yn fawr o'r posibiliadau a berthyn iddo.

**Disgyblaeth**

Yn ôl Llyfr y Pregethwr 7:3, mae 'tristwch yn well na chwerthin'. Caiff gwerth tristwch a dioddefaint ym mywyd yr unigolyn gryn sylw gan y doethion, a mwy nag un eglurhad. Gall poen fod yn fodd gan Dduw i *ddisgyblu* dynoliaeth. Neges ei dri chyfaill i Job, wrth iddo eistedd ar domen ludw'n crafu ei gornwydydd, yw y dylai dderbyn ei gyflwr yn wylaidd a diolchgar am mai 'dedwydd y sawl a gerydda Duw, ac na wrthyd ddisgyblaeth yr Hollalluog' (Job 5:17).

**Profi**

Ond gall Duw ddefnyddio poen a thrallod hefyd i *brofi* dilysrwydd ffydd y crediniwr ynddo. Yn ei ddisgrifiad o dynged eneidiau'r cyfiawn, dywed awdur Doethineb Solomon: 'Er eu disgyblu ychydig, mawr fydd eu hennill am fod Duw wedi eu profi a'u cael yn deilwng ohono ef ei hun. Fel aur mewn tawddlestr y profodd hwy' (3:5-6). Meddai'r Salmydd: 'Mor dda yw imi gael fy ngheryddu, er mwyn imi gael dysgu dy ddeddfau!' (Salm 119:71). Dywed Pedr hefyd fod dilysrwydd ein ffydd yn cael ei brofi trwy amrywiol brofedigaethau (1 Pedr 1:6 –7).

Daw'r casgliad o ddiarhebion i ben â dwy adnod (7:13–14) sy'n ailadrodd yr hyn a ddywedwyd eisoes yn 1:15 a 3:11. Gan na ellir herio grym y Duw hollalluog, nid oes gan ddynion ddewis ond derbyn beth bynnag a ddaw i'w rhan mewn bywyd; nid oes modd newid y drefn. Rhaid dygymod â'r da a'r drwg fel ei gilydd, oherwydd 'Duw a wnaeth y naill beth a'r llall'. Rhaid cydnabod na ellir fyth ddarogan y dyfodol a gwybod yr hyn y mae Duw am ei wneud. Nid oes ddewis ond dweud gyda'r emynydd mai:

Trwy ddirgel ffyrdd mae'r uchel Iôr
yn dwyn ei waith i ben;
ei lwybrau ef sydd yn y môr,
marchoga wynt y nen.

Na farna Dduw â'th reswm noeth,
cred ei addewid rad;
tu cefn i len rhagluniaeth ddoeth
mae'n cuddio ŵyneb Tad.

Bwriadau dyfnion arfaeth gras
ar fyr aeddfeda'n llawn;
gall fod y blodau'n chwerw eu blas,
ond melys fydd y grawn.

*William Cowper, 1731–1800*
*Cyf. Lewis Edwards, 1809–87*

**Be 'dych chi'n feddwl?**

1. Yn eich barn chi, beth yw ystyr cael enw da?
2. A oes tuedd yn ein hoes ni i anwybyddu marwolaeth a gwneud yn fach ohono? Pam y tybiwch chi fod hyn yn digwydd?
3. I'r Cristion, a oes unrhyw werth cadarnhaol mewn profedigaeth a dioddefaint?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Bedyddiadau'r Pasg

Fel Bedyddwyr, rydym wrth ein bodd yn dathlu'r ymrwymiad cyhoeddus o ffydd yn yr Arglwydd Iesu sy'n digwydd mewn bedydd crediniwr! Cynhaliwyd llu o Fedyddiadau ledled Cymru dros benwythnos y Pasg. Dyma gipolwg ar lond llaw o'r straeon hynny:

**Eglwys Bethlehem, Spittal**

'Fe wnaethon ni gynnal gwasanaeth bedydd i ferch a gafodd ei magu yn yr eglwys ond sydd bellach yn y brifysgol ac yn parhau i fod yn rhan o deulu yr eglwys yma. Bedyddiodd ei thad-cu, y Parch. Arfon Thomas (cyn-weinidog yr eglwys yma ym Methlehem), ynghyd â'i thad hefyd, sy'n un o arweinwyr addoliad Bethlehem. Roedd yn bleser i mi lywyddu dros y gwasanaeth a dod â gair Duw a'i weld yn symud mewn ffyrdd pwerus yn ystod yr holl wasanaeth. Daeth dau berson arall ymlaen ar ddiwedd y gwasanaeth eisiau cael eu bedyddio. Felly, byddwn yn llenwi'r pwll eto cyn bo hir! Molwch yr Arglwydd!'

**Eglwys Bethesda, Nayland**

'Roedden ni ym Methesda yn falch iawn, nid yn unig o ddathlu atgyfodiad Iesu Grist ond o allu rhannu newyddion am y bedydd cyntaf yn ein heglwys ers rhyw ugain mlynedd! Mae'r gŵr arbennig hwn wedi bod yn chwilio drwy gydol ei oes am atebion: "Ceisiwch yr Arglwydd, a bydd yn cael ei ddarganfod!"

'Cerddodd i mewn i'n heglwys ddwy flynedd yn ôl pan arweiniodd yr Ysbryd ef i chwilio am astudiaeth Feiblaidd ac i fod gydag eraill oedd yn adnabod yr Arglwydd. Haleliwia a chlod i'r Arglwydd yn wir ei fod wedi cael ei newid, ei drawsnewid a'i eni o'r newydd. Mae heddwch, dealltwriaeth a thawelwch bellach yn treiddio'i gorff a'i feddwl! Ers dinistrio ein bedyddfa yn y capel, defnyddiwyd y pwll a welwch yn y llun fel bedyddfa



benigamp!'

**Eglwys y Bedyddwyr, Johnstown, Hwlffordd**

'Roedd yn ddiwrnod hyfryd yn Eglwys y Bedyddwyr, Johnstown. Ar Sul y Mamau daeth dyn â'i gariad i'r eglwys a derbyniodd hi Iesu Grist fel ei Gwaredwr. Yr wythnos ganlynol dywedodd wrthym ei bod hi'n darllen y Beibl yr oeddem wedi'i roi iddi yn gyson ac wrth i ni siarad â hi am fedydd prin y gallai hi aros. Roedd ei chariad yn gredinwr, ond nid oedd yn cerdded gyda'r Arglwydd ac roedd eisiau cael ei fedyddio gyda hi. Felly, ar Sul y Pasg, cawsom y bedydd. Maen nhw'n wynebu heriau, ond yn dysgu pwyso ar Iesu a'r gymdeithas eglwysig am gryfder a doethineb a thwf. Molwch yr Arglwydd!'

Mae straeon yr unigolion hyn a'u heglwysi i gyd yn wahanol – o ran oedran, cefndir a llwybr bywyd. Ond maen nhw i gyd yn unedig yn eu bedydd fel credinwyr yn enw Iesu Grist!

Beth am gymryd eiliad i weddïo dros y credinwyr newydd hyn a'u heglwysi?

# Dyddiad cau cyflwyno ceisiadau Medalau Gee 2025



Cyflwynir medalau Gee yn flynyddol i ffyddloniaid yr Ysgol Sul, er cof am Thomas a Susannah Gee. Roedd Thomas Gee o Ddinbych yn gyhoeddwr, yn berchennog newyddiaduron ac yn olygydd. Datblygodd Gwasg Gee i fod yn un o'r gweisg pwysicaf yn hanes Cymru, a bu'r wasg yn ddylanwadol iawn am bron i ddwy ganrif, ers ei sefydlu yn nhref Rhuthun.

Mae croeso i ysgolion Sul enwebu medalwyr ar unrhyw adeg o'r flwyddyn ond rhaid i unrhyw gais ar gyfer y flwyddyn gyfredol fod mewn llaw erbyn diwedd Mehefin y flwyddyn honno a chyflwynir y medalau yn ystod misoedd Medi/Hydref.

Mae ffurflen gais ar gael o'n gwefan: https://ysgolsul.com/?page_id=3737

Am ragor o fanylion, cysylltwch ag Aled Davies: aled@ysgolsul.com

# Cofio Hugh Jones, Maesglasau (1749–1825) – cyfieithydd ac emynydd

Tybed pa un yw'r emyn gorau yn yr iaith Gymraeg, yn eich barn chi? Cwestiwn anodd i'w ateb, dybiwn i, yn enwedig gan fod gennym gymaint o emynau mor gyfoethog.

Dewis neb llai na'r golygydd, y llenor a'r addysgwr Syr O. M. Edwards (1858–1920), oedd yr emyn 'O tyn y gorchudd yn y mynydd hyn' o waith Hugh Jones, Maesglasau, tŷ fferm rhwng Dinas Mawddwy a Dolgellau.

Yr emyn hwn sydd wedi rhoi teitl i nofel ffug-hunangofiannol Angharad Price, *O! Tyn y Gorchudd*, a enillodd y Fedal Ryddiaith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru Tyddewi 2002 a gwobr Llyfr y Flwyddyn yn 2003. Mae'n cynnwys portread byw a chynnes o gymdeithas wledig Gymraeg ym Meirionnydd yn ystod yr ugeinfed ganrif a chafodd ei chyfieithu i chwe iaith. Ceir dyfyniadau o waith Hugh Jones ynddi.

Cafodd Hugh Jones ei fedyddio ar 24 Tachwedd 1749 yn eglwys Mallwyd. Bu'n athro ysgol yn Llundain am gyfnod byr cyn dychwelyd i Gymru i ffermio a chadw ysgolion ym Meirionnydd a Threfaldwyn. Roedd yn un o sylfaenwyr achos y Methodistiaid Calfinaidd ym Mallwyd. Gweithiodd hefyd fel cyfieithydd i lawer o gyhoeddwyr, gan gynnwys Thomas Gee. Bu'n gyfrifol am gyfieithu nifer o lyfrau crefyddol o'r Saesneg i'r Gymraeg. Cyhoeddodd gyfrol o fyfyrdodau crefyddol, *Cydymdaith yr Hwsmon*, a dwy gyfrol o farddoniaeth, *Gardd y Caniadau* a *Hymnau Newyddion*. Roedd hefyd yn gerddor, ac emyn-dôn o'i waith yw 'Capel Cynon'. Bu farw ar 16 Ebrill 1825 yn Henllan, yn ymyl Dinbych, ddeucan mlynedd yn ôl, yn ddigon tlawd ei fyd, yn ôl yr hanes.

Mae'n debyg mai atgof am Gwm Maesglasau, ei hen gartref, a'i hysgogodd i gyfansoddi'r emyn. Fel y dywed Huw Powell-Davies yn *Emynau Ffydd*, mae'r ddelwedd o dynnu'r gorchudd yn dod o Eseia 25:7: 'Ac ar y mynydd hwn fe ddifa'r gorchudd a daenwyd dros yr holl bobloedd.' Ar ôl dadansoddi'r emyn crefftus hwn, mae Huw Powell-Davies yn diweddu gyda'r weddi fer ganlynol:

> O Dad, yr hwn wyt 'yn datguddio pethau dwfn a chuddiedig' a phob tywyllwch i ti fel golau dydd, gofynnaf iti dynnu pob gorchudd sydd yn fy rhwystro i rhag gweld dy ogoniant yn Iesu Grist dy fab, ac y bydd y llen yn cael ei chodi ar y Cymry unwaith eto er mwyn gweld ei degwch ef a cheisio noddfa yn 'ei glwyfau dyfnion e'. Amen.

Mae saith pennill i'r emyn yn y gwreiddiol ond tri sydd yn *Caneuon Ffydd* dan adran y Groes (rhif 525), ac mae'n addas ein bod yn cynnwys y tri phennill yma, yn enwedig gan fod y neges mor briodol a ninnau wedi bod yn dathlu'r Pasg yn ddiweddar, ac i gofio hefyd am Hugh Jones:

O tyn
y gorchudd yn y mynydd hyn;
llewyrched Haul Cyfiawnder gwyn
o ben y bryn bu'r addfwyn Oen
yn dioddef dan yr hoelion dur,
o gariad pur i mi mewn poen.

Ble, ble
y gwnaf fy noddfa dan y ne',
ond yn ei glwyfau dyfnion e'?
Y bicell gre' aeth dan ei fron
agorodd ffynnon i'm glanhau:
'rwy'n llawenhau fod lle yn hon.

Oes, oes,
mae rhin a grym yng ngwaed y groes
i lwyr lanhau holl feiau f'oes;
ei ddwyfol loes a'i ddyfal lef
mewn gweddi drosof at y Tad
yw fy rhyddhad a'm hawl i'r nef.

(*O Bapur Elim, Heol Awst a'r Priordy, rhif 8, Ebrill 2025*)

# Cyflwyno Tystysgrifau i Longyfarch Blaenoriaid yn Sasiwn y De, Bwlchgwynt, Tregaron, 8 Mai



O'r chwith: Tim Jones, Shiloh, Llanbed; Iola Alban, Carmel, Llanilar (hefyd yn derbyn tystysgrif ar ran Cassie Williams, Rhydyfagwyr; Aneurin Owen, Llywydd y Gymanfa Gyffredinol; Rhidian Griffiths (yn derbyn tystysgrif ar ran Wynford Evans, Capel y Morfa); Joanna Thomas-Wright (yn derbyn tystysgrif ar ran ei mam, Meinir Thomas, Peniel, Foelgastell); Tomos Williams, arweinydd Capel Heol y Crwys; Tony Platt, Eglwys y Drindod, Cockfosters; Emyr Williams (Ysgrifennydd), Carwyn Arthur (Llywydd)

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 25 Mai – am 7:30yh**
Rhaglen uchafbwyntiau

BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
**Sul, 25 Mai, am 7:30yb a 12:00yp**
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Hefin Jones, Caerdydd

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 25 Mai, am 4:30yp**
Oedfa Eisteddfod yr Urdd

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru